Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a Chymru

Gorffennaf 2011

## Cyflwyniad

Mae'r Undeb Ewropeaidd ("yr UE") yn deddfu mewn nifer o feysydd arwyddocaol a ddatganolwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Er nad yw Cymru'n un o 27 Aelod-wladwriaeth yr UE, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru rolau pwysig o ran gweithredu rhai o gyfreithiau'r UE a sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed ar lefel yr UE drwy ddylanwadu ar safle negodi Llywodraeth a Senedd y DU.

Mae'r canllaw hwn yn darparu trosolwg o'r mathau o ddeddfwriaeth a gaiff eu gwneud gan yr UE ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol o ran:

- gweithredu rhai o gyfreithiau'r UE i weddu i anghenion Cymru;
- dylanwadu'n anuniongyrchol ar gynigion deddfwriaethol yr UE; a
- monitro cyfreithiau'r UE i sicrhau nad ydynt yn torri'r egwyddor o sybsidiaredd.

## Y fframwaith deddfwriaethol: cytuniadau'r Undeb Ewropeaidd

Nodir trefniadau deddfwriaethol a strwythurol yr UE mewn dau gytuniad craidd – y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar weithredu'r Undeb Ewropeaidd. Fe'i diweddarwyd gan Gytuniad Lisbon yn 2009. [1] Mae'r cytuniadau hyn yn diffinio:

- meysydd y mae gan yr UE gymhwysedd deddfwriaethol llwyr ynddynt (sef undeb tollau, rheolau cystadleuaeth, polisi ariannol ar gyfer y gwledydd hynny sydd wedi ymuno â'r ewro, gwarchod adnoddau biolegol morol o dan y polisi pysgodfeydd cyffredin, polisi masnachol cyffredin);
- meysydd cymhwysedd deddfwriaethol a rennir rhwng yr UE a'r Aelod-wladwriaethau (sef y farchnad fewnol; polisi cymdeithasol;  cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol; amaethyddiaeth a physgodfeydd; yr amgylchedd; diogelu defnyddwyr; trafnidiaeth; rhwydweithiau traws-Ewropeaidd; ynni; a phryderon cyffredin o ran diogelwch mewn perthynas ag iechyd cyhoeddus);

[1] Ceir mwy o wybodaeth am brif sefydliadau'r UE yn Hysbysiadau Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil

- Cydgysylltu rhwng Aelod-wladwriaethau ym meysydd yr economi a pholisi cyflogaeth;
- Cymhwysedd yr UE i gefnogi, cydlynu ac ategu camau a gymerir gan lywodraethau cenedlaethol mewn nifer o feysydd a ddiffinnir (er enghraifft, gwarchod a gwella iechyd pobl).

Mae'r cytuniadau hefyd yn creu sefydliadau'r UE ac yn diffinio'u pwerau craidd a'u swyddogaethau. Maent hefyd yn gosod egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd wrth wraidd gwaith yr UE.

Mae'r ddau gytuniad hefyd yn galluogi sefydliadau'r UE i wneud gwahanol fathau o ddeddfwriaeth a all fod yn gymwys i'r holl Aelod-wladwriaethau, ynghyd â diffinio'r prosesau sylfaenol a ddefnyddir wrth fabwysiadu cyfreithiau'r UE.

Mae'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn gwahaniaethu'n glir rhwng 'gweithredoedd deddfwriaethol' (sef rheoliadau a chyfarwyddebau'r UE a gaiff eu mabwysiadu drwy'r gweithdrefnau 'cyffredin' ac 'arbennig' gan Gyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop, cyd-ddeddfwyr yr UE) a 'gweithredoedd anneddfwriaethol'. Fodd bynnag, gall gweithredoedd anneddfwriaethol fod yn ddeddfwriaeth, felly gellir cymharu'r gwahaniaeth hwn â'r gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth gynradd ac is-ddeddfwriaeth.

Mae 'gweithredoedd anneddfwriaethol' yn gategori eang o fesurau, sy'n cynnwys cyfreithiau 'meddal' yr UE fel argymhellion a chanllawiau nad ydynt yn rhwymol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys 'gweithredoedd dirprwyedig' a 'gweithredoedd gweithredu' sy'n rhwymo[2] a gaiff eu paratoi gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan bwerau a gaiff eu dirprwyo iddo gan Gyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop, sydd ar ffurf rheoliadau, cyfarwyddebau neu benderfyniadau.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol am ddau reswm:

- dim ond 'gweithredoedd deddfwriaethol' sy'n ddarostyngedig i wiriad rhybudd cynnar y protocol sybsidiaredd gan seneddau cenedlaethol a rhanbarthol (gweler isod); ac
- mae nifer y rheoliadau a fabwysiadir fel 'gweithredoedd anneddfwriaethol' (mabwysiadir dros 2,500 o 'weithredoedd gweithredu' a 'gweithredoedd dirprwyedig' bob blwyddyn) yn fwy o lawer na nifer cyfarwyddebau a rheoliadau'r UE a fabwysiadir gan y Cyngor a'r Senedd (tua 40-50 y flwyddyn).

## Cyfreithiau'r UE: Rheoliadau, Cyfarwyddebau a Phenderfyniadau

Mae tri math o ddeddfwriaeth a gaiff eu creu gan sefydliadau'r UE. Mae'r cyfreithiau hyn yn cael blaenoriaeth dros gyfraith genedlaethol ac maent yn rhwymo awdurdodau

---

[2] Erthyglau 290 a 291 o'r Cytuniad ar Weithredu'r UE: Mae **gweithredoedd dirprwyedig** yn rhoi i'r Comisiwn gyfrifoldeb dros atodi Rheoliadau/Cyfarwyddebau'r UE ar sail effeithiolrwydd, drwy alluogi arbenigwyr technegol i ymdrin â materion cymhleth a chaniatáu i welliannau gael eu gwneud yn fwy cyflym na fyddai'n bosibl fel arall. Bwriedir i **weithredoedd gweithredu** sichrau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu yn gyson gan holl Aelod-wladwriaethau'r UE - er enghraifft, wrth roi rheolau ar gyfer rhaglenni ariannu'r UE ar waith. Gweler **Clifford Chance, Briefing note: Sea of Change – Regulatory reforms to 2012 and beyond, Mai 2011 [Fel ar 21 Mehefin 2011]**

cenedlaethol mewn cyfraith:

### 1. Rheoliadau

Rheoliadau'r UE yw'r math mwyaf uniongyrchol o ddeddfwriaeth yr UE. O dan Erthygl 288 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd, mae gan yr UE y pŵer i gyhoeddi rheoliadau sy'n rhwymol ym mhob ystyr ac yn uniongyrchol gymwys ym mhob Aelod-wladwriaeth[3]. Daw rheoliadau'r UE yn gyfraith ym mhob Aelod-wladwriaeth yn awtomatig er yn aml bydd angen mesurau gweithredu cenedlaethol i fynd i'r afael â materion gweinyddol a gorfodi.

Gall rheoliadau gael eu pasio naill ai ar y cyd gan Gyngor yr Undeb Ewropeaidd a Senedd Ewrop neu gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ei ben ei hun.

### 2. Cyfarwyddebau

Mae cyfarwyddebau'r UE yn nodi amcanion penodol y mae'n rhaid eu cyflawni ym mhob Aelod-wladwriaeth. Er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, rhaid i Aelod-wladwriaethau addasu eu cyfreithiau, ond maent yn rhydd i benderfynu sut i wneud hynny.

Gall cyfarwyddebau fod yn berthnasol i un neu fwy o Aelod-wladwriaethau neu i bob un ohonynt ac fe'u defnyddir i gysoni gwahanol gyfreithiau cenedlaethol. Maent yn arbennig o gyffredin mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar sut y mae'r farchnad sengl yn gweithio.

Mae pob cyfarwyddeb yn pennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i gyfreithiau cenedlaethol gael eu haddasu - gan roi'r hyblygrwydd i awdurdodau cenedlaethol o ran y dyddiadau hynny er mwyn ystyried y gwahanol sefyllfaoedd mewn gwahanol Aelod-wladwriaethau.[4]

### 3. Penderfyniadau

Cyfeirir penderfyniadau un ai at Aelod-wladwriaeth neu at berson cyfreithiol (sefydliad, cwmni neu berson unigol) ac maent yn rhwymol i'r rhai y maent yn cyfeirio atynt yn unig. Gallant ei gwneud yn ofynnol bod y rhai y maent yn cyfeirio atynt yn gwneud rhywbeth neu'n rhoi'r gorau i wneud rhywbeth, a gallant hefyd roi hawliau iddynt.

Nid yw penderfyniadau fel arfer yn creu cyfreithiau'r UE sy'n gymwys yn gyffredinol.

Yn ogystal â'r darnau hyn o ddeddfwriaeth, mae'r UE hefyd yn cyhoeddi **offerynnau nad ydynt yn rhwymo**, fel **argymhellion** a **barnau**, yn ogystal â chreu rheolau sy'n penderfynu sut y mae sefydliadau a rhaglenni'r UE yn gweithio.[5]

## Rôl y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru

Fel llywodraeth "ranbarthol" yn gweithredu o fewn Aelod-wladwriaeth, mae gan y Cynulliad rôl i'w chwarae o ran dylanwadu'n anuniongyrchol ar safbwynt Llywodraeth y DU a chraffu

---

[3] Fersiynau wedi'u cydgrynhoi o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Erthygl 288 [Fel ar 17 Mehefin 2011]
[4] Y Comisiwn Ewropeaidd, 'What are EU directives?' [Fel ar 17 Mehefin 2011]
[5] Y Comisiwn Ewropeaidd, 'What is EU law?' [Fel ar 17 Mehefin 2011]

ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r UE. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud hyn yn y gorffennol drwy gynnal ymchwiliadau pwyllgor ar flaenoriaethau strategol allweddol yn gynnar yn y broses o wneud polisïau yn yr UE, cyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi ei gynigion deddfwriaethol.

Caiff Aelodau'r Cynulliad hefyd ofyn cwestiynau i'r Gweinidog perthnasol o Gymru ar unrhyw adeg yn ystod proses ddeddfwriaethol yr UE ynghylch effaith cynnig deddfwriaethol yr UE ar Gymru a'r paratoadau sy'n mynd rhagddynt yn adrannau Llywodraeth Cymru cyn roi'r cynnig ar waith.

Hefyd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl gyffredinol i'w chwarae o ran hyrwyddo diddordebau Cymru ymysg sefydliadau'r UE. Mae hyn yn cynnwys siarad yn uniongyrchol â'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop (yn enwedig pedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop), y cynrychiolwyr o Gymru ar ddau gorff ymgynghori'r UE - Pwyllgor y Rhanbarthau (sy'n cynnwys gwleidyddion lleol a rhanbarthol) a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (sy'n cynnwys arbenigwyr sy'n cynrychioli diddordebau sector) - a thrwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yr UE.

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gyfrifoldebau ffurfiol ac uniongyrchol mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE. Maent yn cynnwys:

- **Trosi Cyfarwyddebau'r UE:** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am drosi (hynny yw, gweithredu) Cyfarwyddebau'r UE a wneir mewn meysydd a ddatganolwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Caiff y rhain eu gwneud drwy Offerynnau Statudol a gaiff eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan Weinidogion Cymru, a bydd un o bwyllgorau'r Cynulliad yn craffu arno fel is-ddeddfwriaeth[6]. Gall y pŵer i wneud offerynnau statudol o'r fath gael ei gynnwys un ai mewn Deddfau penodol Senedd y DU neu'r Cynulliad, neu o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (ar gyfer y pynciau hynny y dirprwywyd i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor).

  Caiff gweithredu ei fonitro ar lefel yr Aelod-wladwriaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n gallu mynd â llywodraethau cenedlaethol i Lys Cyfiawnder Ewrop os byddant yn methu ag ymgymryd â'u rhwymedigaethau gweithredu, neu'n eu torri. Os bydd Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i benderfyniad o'r fath, bydd yr Aelod-wladwriaeth (y DU, yn yr achos hwn) yn wynebu dirwy.

  Byddai unrhyw ddirwy a gaiff ei thalu gan Lywodraeth y DU, o ganlyniad i Gymru'n methu â gweithredu ymrwymiadau'r UE, yn cael ei adennill o grant bloc Cymru.

  Wrth drosi cyfarwyddebau yn gyfraith Cymru, bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio o fewn y canllawiau a rhoddwyd gan Lywodraeth y DU (**'Transposition guide: how to implement European directives effectively'**) ac yn y concordat ar gydlynu polisïau'r UE fel y'i nodir yn Rhan 2 Adran B o'r **Memorandwm o Ddealltwriaeth** rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig.

[6] I gael mwy o wybodaeth am is-ddeddfwriaeth, edrychwch ar **hysbysiad hwylus y Gwasanaeth Ymchwil ar is-ddeddfwriaeth**.

- **Cydymffurfio â holl gyfreithiau'r UE:** Mae gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag awdurdodau dirprwyedig yng Nghymru, hefyd gyfrifoldeb dros sicrhau y cydymffurfir â chyfreithiau eraill yr UE (gan gynnwys rheoliadau a chyfarwyddebau) sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu swyddogaethau Gweinidogion Cymru. Nodir y gofyniad hwn yn adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

  Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau y cydymffurfir â chyfreithiau o'r fath drwy ddwyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru i gyfrif drwy ei strwythur busnes a phwyllgorau.

## Mynegi gwrthwynebiad i ddeddfwriaeth ddrafft yr UE: y protocol sybsidiaredd

### Diffinio sybsidiaredd

Mae'r egwyddor o sybsidiaredd yn penderfynu sut y caiff pwerau'r UE eu harfer. Diffinnir ei rôl o fewn yr UE yn ffurfiol yn Erthygl 5 o Gytuniad yr UE fel a ganlyn:

> In areas which do not fall within its exclusive competence, the Community shall take action, in accordance with the principle of subsidiarity, only if and in so far as the objectives of the proposed action cannot be sufficiently achieved by the Member States and can therefore, by reason of the scale or effects of the proposed action, be better achieved by the Community.[7]

Yn ymarferol, golyga hyn na ddylai'r UE gymryd camau i gyflawni ei amcanion heblaw bod y camau a gymerir gan haenau eraill o lywodraeth (lleol, rhanbarthol, cenedlaethol) yn annigonol neu'n aneffeithiol. Bwriad hyn yw sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel agosaf posibl i'r dinesydd.

### Y Protocol Sybsidiaredd

Er mwyn diogelu'r egwyddor hon, sefydlodd Cytuniad Lisbon yr **egwyddor o sybsidiaredd** - sy'n golygu bod seneddau'r Aelod-wladwriaethau yn cael cwmpas ehangach i orfodi sybsidiaredd a chwarae rôl ystyrlon, ochr yn ochr â sefydliadau'r UE, yn gynnar yn y broses ddeddfwriaethol.

Anfonir yr holl gynigion deddfwriaethol a fabwysiadir gan y Comisiwn at seneddau cenedlaethol holl Aelod-wladwriaethau'r UE ar yr un pryd ag y cânt eu hanfon at Senedd Ewrop, Cyngor yr UE a dau gorff ymgynghorol yr UE (Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol)[8].

Mae'r protocol yn rhoi i holl seneddau cenedlaethol yr Aelod-wladwriaethau gyfnod

---

[7] Fersiynau wedi'u cydgrynhoi o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Erthygl 288 [Fel ar 17 Mehefin 2011]

[8] Mae'n arferol i'r Comisiwn Ewropeaidd anfon ei holl Gyfathrebiadau – yn rhai deddfwriaethol ac yn rhai anneddfwriaethol – at sefydliadau'r UE, llywodraethau cenedlaethol a seneddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r gwriad sybsidiaredd rhybudd cynnar dim ond yn gymwys i gynigion deddfwriaethol *drafft*.

‘rhybudd cynnar’ o wyth wythnos i gyflwyno barn resymedig, gan nodi pam eu bod yn ystyried nad yw’r cynnig deddfwriaethol drafft dan sylw yn cydymffurfio â’r egwyddor o sybsidiaredd. Cynigir yr hawl i rybudd i holl seneddau cenedlaethol yr Aelod-wladwriaethau a gall arwain at sefyllfa lle bydd y cynnig deddfwriaethol drafft yn:

- cael ei gynnal, ei ddiwygio neu’i dynnu yn ôl gan Gomisiwn yr UE; neu
- ei rwystro gan Senedd Ewrop neu’r Cyngor.

Fodd bynnag, bydd rhoi gwrthwynebiadau o’r fath ar waith yn ddibynnol ar nifer o weithdrefnau.

Mae Cytuniad Lisbon yn datgan os bydd traean o seneddau cenedlaethol yr UE (sef 9 o’r 27 o Aelod-wladwriaethau ar hyn o bryd) yn herio a yw cynnig deddfwriaethol drafft yn cydymffurfio â’r egwyddor o sybsidiaredd, rhaid i Gomisiwn yr UE edrych ar y drafft unwaith eto ac egluro pam ei fod yn ei gynnal (y weithdrefn ‘**cerdyn melyn**’). Mae trothwy gwahanol o chwarter o Aelod-wladwriaethau (un ai 6 neu 7 Aelod-wladwriaeth) yn gymwys os yw’r ddeddfwriaeth ddrafft dan sylw yn gysylltiedig â maes rhyddid, diogelwch a chyfiawnder.[9]

Os bydd mwyafrif syml o’r seneddau cenedlaethol (sef 14 neu fwy o Aelod-wladwriaethau ar hyn o bryd) yn herio a yw cynnig deddfwriaethol drafft yn cydymffurfio â’r egwyddor o sybsidiaredd (‘**cerdyn oren**’) a bod y Comisiwn yn cynnal ei gynnig, cyfeirir y cynnig at Senedd Ewrop a’r Cyngor, a fydd yn cyhoeddi penderfyniad ar ôl y darlleniad cyntaf.[10]

Os nad ydynt yn credu bod y cynnig deddfwriaethol yn cyd-fynd â’r egwyddor o sybsidiaredd, gallant ei wrthod yn amodol ar fwyafrif yn y Cyngor o 55 y cant neu fwyafrif y bleidlais yn Senedd Ewrop.[11]

Caiff **Pwyllgor y Rhanbarthau** hefyd gyfeirio’n uniongyrchol at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd os bydd achos o dorri’r egwyddor o sybsidiaredd gan un o brif sefydliadau’r UE.[12]

## Y Cynulliad Cenedlaethol a sybsidiaredd

Oherwydd ystyrir y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn ddeddfwrfa “ranbarthol” yn hytrach nag yn senedd genedlaethol ar lefel yr UE, nid oes ganddo unrhyw sail gyfreithiol uniongyrchol i gwestiynu cynigion deddfwriaethol yr UE yn seiliedig ar sybsidiaredd. Fodd bynnag, mae erthygl o’r ail Brotocol i Gytuniad Lisbon yn datgan mai lle pob Senedd genedlaethol neu bob siambr o seneddau cenedlaethol yw ymgynghori â seneddau rhanbarthol sydd â phwerau deddfwriaethol, lle bo hynny’n briodol.[13]

Felly, mae **Rheolau Sefydlog** y Cynulliad Cenedlaethol yn galluogi pwyllgor Cynulliad i

---

[9] Senedd Ewrop, ‘The principle of subsidiarity’ [Fel ar 17 Mehefin 2011]
[10] Ibid
[11] European Parliament, ‘The principle of subsidiarity’ [Fel ar 17 Mehefin 2011]
[12] Gwefan Europa, ‘Glossary: Subsidiarity’ [Fel ar 17 Mehefin 2011]
[13] Fersiynau wedi’u cydgrynhoi o’r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd a’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Protocol 2, Erthygl 6 [Fel ar 22 Mehefin 2011]

edrych ar ddeddfwriaeth ddrafft yr UE er mwyn ystyried a yw'n cydymffurfio â'r egwyddor o sybsidiaredd, ar yr amod ei bod yn ymwneud â phwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru. Rhoddwyd y cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu nad yw'r ddeddfwriaeth dan sylw yn cydymffurfio â'r egwyddor o sybsidiaredd, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu iddo gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar ran y Cynulliad Cenedlaethol i bwyllgorau perthnasol Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Gall y pwyllgorau hynny ystyried y sylwadau hynny wrth iddynt benderfynu ar eu casgliadau.

## Lincs defnyddiol

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddeddfwriaeth yr UE a chynigion deddfwriaethol drafft yr UE ar y gwefannau a ganlyn:

- Mae holl Reoliadau, Cyfarwyddebau, Penderfyniadau ac argymhellion yr UE ar gael ar wefan **EUR-Lex**;
- Mae cronfa ddata **llyfrgell Lexis** hefyd yn cynnwys pob ddarn o ddeddfwriaeth yr UE;
- Mae **arsyllfa ddeddfwriaethol Senedd Ewrop** yn dilyn hynt cynigion sy'n mynd drwy broses Senedd Ewrop o wneud penderfyniadau;
- Mae gwefan **European Law Monitor** yn rhoi i ddinasyddion ledled Ewrop y gallu i ddod o hyd i gynigion newydd yr UE a dilyn eu hynt;
- Ceir crynodeb o'r prif agweddau ar gyfraith yr UE ar y tudalennau sy'n crynhoi deddfwriaeth yr UE ar wefan **Europa**.

## Gwybodaeth bellach

I gael mwy o wybodaeth am yr Undeb Ewropeaidd neu am unrhyw fater cyfansoddiadol, cysylltwch ag **Owain Roberts** (**Owain.Roberts@cymru.gov.uk**) **neu Gregg Jones** (**Gregg.Jones@cymru.gov.uk**), yn y Gwasanaeth Ymchwil.

I weld ein rhestr llawn o hysbysiadau hwylus, ewch **yma**.

**Rhif ymholiad: 11/1148 Owain Roberts a Gregg Jones**
**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd.**

**Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at Research.Service@cymru.gov.uk**